

Ymyrraeth	Sgiliau Cywir		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Oren	Cynnydd heb frwr'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Arwain	Guy Lacey a Stephen Tiley	Cyfnod Adrodd	Chwarter 4 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o frwr'r targed
Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau					
Cam 1 – Cyflwynwyd Wythnos Gyrfaoedd Ar-lein ym mis Mawrth i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 9 ac uwch yn ysgolion Casnewydd sy'n canolbwyntio ar swyddi gwyrdd. Cofnodwyd y sesiynau ar-lein ac maent bellach ar gael i fyfyrwyr eu defnyddio fel adnodd gyrfaoedd parhaus.					
Cam 1 - PDC / CG yn cydweithio ar arlwy cwricwlwm ôl-16 yng Nghasnewydd a gwell cyfleoedd dilyniant, wedi'u hwyluso gan gampws newydd i CG yng nghanol y ddinas.					
Camau 1 a 2 – Prosiect sgiliau sector sgrin, Troed yn y Drws, ar y gweill. 13 o ddigwyddiadau hyd yma gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd a dilyniant, bwccampau sgiliau sgrin, ymweliadau penodol a hyfforddiant rôl-benodol (e.e. cyflwyniad i waith coed) gan gyrraedd tua 150 o unigolion hyd yn hyn, gan gynnwys chwe chyflogaeth yn y maes teledu a'r sgrin â thâl.					
Cam 2: Mae canran y rhai sy'n gadael yr ysgol yn 2021 a gofnodwyd fel NEET yng Nghasnewydd yn is na chyfartaledd Cymru (Blwyddyn 11 - Casnewydd 1.3% c.f. Cymru 1.6%; Blwyddyn 12 – Casnewydd 0.3% c.f. Cymru 0.4%; Blwyddyn 13 – Casnewydd 1.09% c.f. Cymru 2.29%). Defnyddiwyd Cydraddoldeb mewn Addysg a Chyllid Cymunedol i gyflwyno Ffair Yrfaedd (Diwrnodau Symud Ymlaen) ar gyfer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 sydd mewn perygl o fod yn NEET. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan bobl ifanc, rhieni, gofawyr ac ysgolion gan arwain at ddigwyddiad tebyg yn cael ei gynllunio ar gyfer 2023.					
Cam 3 – Darparu hyfforddiant newid yn yr hinsawdd / llythrennedd carbon yn ardaloedd gwledig Casnewydd. Mae cwrs cymunedol pwrpasol wedi'i ddatblygu a chyflwynwyd sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr i hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn ehangach ledled Casnewydd.					
Cam 3 – Sesiynau llythrennedd digidol "Get Connected" wedi'u cyflwyno; Cymorthfeydd Seiberddiogelwch PDC a NCH wedi'u darparu.					
Rhwystro i gynydd	Statws	Camau Lliniarol			
Mae Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop yn dod i ben ar gyfer Aspire2Achieve sy'n effeithio ar gyflwyno Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Dilyniant (NEET)	U	Archwilio ffynonellau ariannu eraill			
Mesuriadau Perfformiad Allweddol					
Targed	Gwiro-neddol	COG			
% y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	1.8%	1.3%	G		
% y disgyblion Blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	2.5%	1.09%	G		
AilGychwyn REACH: Unigolion sy'n derbyn cymorth i wella sgiliau iaith Saesneg (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill)	Ebrill i Rhag 2021	460	G		
AilGychwyn REACH: Unigolion a gafodd gymorth cyflogadwyedd	Ebrill i Rhag 2021 46	60	G		
Buddiolwyr Rhaglen Troed yn y Drws	300 erbyn diwedd y prosiect	150 hyd yma	G		
Cynllun ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol					
Agor safle gwybodaeth a digwyddiadau Sgiliau a Chyflogaeth Troed yn y Drws dros dro yng nghanol y ddinas, hysbysebu rhagor o leoedd cyflogaeth, gweithdai cymunedol a hyfforddiant sy'n benodol i rôl yn y maes teledu.					
Datblygu'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant ar y newid yn yr hinsawdd a'i ymgorffori yng nghynnig Dysgu Parhaus i Oedolion Casnewydd o fis Medi 2022.					
Datblygu rhaglen o weithgareddau ar draws Darparwyr Dysgu Parhaus i Oedolion yng Nghasnewydd ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion 2022 gyda chymorth cyllid ymgysylltu Llywodraeth Cymru					
Yr Adran Gwaith a Phensiynau'n ailgychwyn ffair swyddi ledled y ddinas ym mis Mai 2022 ac yn cynllunio ar gyfer ail ffair swyddi yn yr hydref					